Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun y Trydydd Sector







## Adroddiad Blynyddol 2016-17

Mawrth 2018

# Cynnwys

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o waith ymgysylltu Llywodraeth Cymru yn y Trydydd Sector yn ystod 2016-17.**


3 Rhagair gan Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

4 Safbwynt y Sector: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

5 Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector – Cysylltiadau, Ymgysylltu a Chynllun y Trydydd Sector

8 Cefnogi'r Trydydd Sector – Rôl sefydliadau Seilwaith sy'n galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu a chyflawni

14 Sut a Pham mae Llywodraeth Cymru yn Cefnogi Gwirfoddolwyr

18 Cyllid a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r Trydydd Sector 2016-17

20 Ffynonellau gwybodaeth bellach


## Astudiaethau Achos


12 Galluogi Byw'n Annibynnol – Gofal a Thrwsio Cymru – Cefnogi Pobl i fyw yn eu cartref https://www.youtube.com/watch?v=lbqAdljbh_A

16 Hawl i Fudd-daliadau: Manteision gwirfoddoli ar daith tuag at gyflogaeth https://www.youtube.com/watch?v=NWVbyS4pg-E

19 Y Trydydd Sector yn cefnogi personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yng Nghymru https://www.youtube.com/watch?v=vEkNyFuUV7k

# Rhagair

Dyma fy Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Gynllun y Trydydd Sector ers i mi ddechrau goruchwylio gwaith Llywodraeth Cymru o ran cefnogi ac ymgysylltu â'r mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel y "Trydydd Sector".

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1af Ebrill 2016 a 31ain Mawrth 2017, pan oedd Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant bryd hynny, yn gyfrifol am oruchwylio'r Trydydd Sector.

Yn 2016-17 roedden ni'n canolbwyntio ar gynnal ein hymrwymiad i gefnogi ac ymgysylltu â'r Trydydd Sector er mwyn cynnig darpariaeth i'r rheini rydyn ni'n eu gwasanaethu – sef pobl a chymunedau Cymru.

Rwy'n credu'n gryf, fel yr oedd Carl, ei bod hi'n bwysig bod tystiolaeth gadarn ar gael i ddangos beth mae'r Sector yn ei wneud i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion, nid er ei fwyn ei hun, ond er mwyn dangos i bartneriaid arfaethedig y math o arloesedd ac adnoddau ychwanegol y gall y Sector eu cyfrannu.

Yn 2016-17 fe wnaethon ni barhau i gydweithio er mwyn:

- datblygu mecanweithiau gwell i sicrhau ymgysylltu adeiladol;
- galluogi'r Trydydd Sector i ddal ati i wneud yr hyn mae wedi'i wneud gystal yn y gorffennol, a hefyd i'r Trydydd Sector ystyried rhannu adnoddau a gweithio ar y cyd.

Hoffwn roi teyrnged arbennig yma i Carl a'i waddol o hybu ac annog gwirfoddoli ledled Cymru, heb sôn am ei gyfraniad parhaus yn hyrwyddo pwysigrwydd gwirfoddolwyr ym mywyd Cymru.

Edrychaf ymlaen yn fawr at ddatblygu ar y gwaddol hwnnw, gan weithio'n agos â'r Sector i sicrhau bod ein perthynas ar drywydd cadarn a chadarnhaol ar gyfer y dyfodol, er mwyn cyfoethogi bywydau pobl yng Nghymru.





**Alun Davies AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

# Safbwynt y Sector

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru yn gasgliad bywiog ac amrywiol o elusennau cofrestredig, cymdeithasau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Fel y gwelwch wrth ddarllen yr Adroddiad hwn, mae ymchwil gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn awgrymu bod dros 31,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru, gyda 28% o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddol. Treulir cyfanswm o 61 miliwn o oriau yn gwirfoddoli yng Nghymru. Ar gyfradd y cyflog cyfartalog yng Nghymru o £12.50 yr awr, byddai cyfanswm gwerth yr oriau gwirfoddoli hynny yn £757 miliwn.

WCVA yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cysylltu'r Trydydd Sector yng Nghymru, yn darparu cefnogaeth er mwyn galluogi mudiadau i gyflawni eu hamcanion ac yn dylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ledled y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal â dinasyddion unigol, ar lefel genedlaethol. Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu cymorth a chyngor yn lleol er mwyn galluogi'r sector i ffynnu ac i gyfrannu at gymdeithas sifil weithredol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid gwerthfawr er mwyn galluogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol a WCVA i gydweithio, gan weithredu fel Cefnogi Trydydd Sector Cymru.


Un peth mae'r cyllid hwn yn canolbwyntio arno'n benodol yw annog ymgysylltu drwy Gynllun y Trydydd Sector. Mae'r cynllun yn amlinellu prosesau ac egwyddorion pwysig ar gyfer partneriaethau er mwyn i'r sector ystyried a thrafod materion strategol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal â Gweinidogion Cymru a bydd cynnydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwerth ychwanegol mae profiad y trydydd sector yn ei gyfrannu yn cael ei ystyried, ar sail y dystiolaeth gan bobl mewn cymunedau ledled y wlad.

Rydyn ni'n croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i egwyddor y sector ynghylch annibyniaeth, a phwysigrwydd llais y sector o ran darparu gwybodaeth i sicrhau polisi da.

Mae'r berthynas rhwng y sector a Llywodraeth Cymru yn aeddfedu. Mae'n seiliedig ar ymddiriedaeth ac mae angen manteisio ar y cyfleoedd i roi cynnig ar ddulliau newydd o fynd i'r afael â materion yr ystyrir eu bod yn "rhy anodd i ddelio â nhw". Mae'r sector yn cefnogi unigolion, yn gweithio mewn cymunedau ac yn gallu darparu tystiolaeth a data am yr hyn sy'n gweithio mewn polisi cyhoeddus ar draws holl bortffolios y Llywodraeth.

Mae'n bwysig iawn cynnal deialog cyson â Llywodraeth Cymru, ac mae Cynllun y Trydydd Sector yn darparu sail gadarnhaol i adeiladu arni.

Fel rhan o'r ymrwymiad parhaus hwn, adeg cyhoeddi'r ddogfen hon mae'r sector a Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod sut i gryfhau ac adnewyddu'r mecanweithiau a ddefnyddir i ymgysylltu â'i gilydd.



**Peter Davies CBE**
Cadeirydd



**Ruth Marks MBE**
Prif Weithredwr

# Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector – Cysylltiadau, Ymgysylltu a Chynllun y Trydydd Sector

**Yn weithredol ym mhob cymuned ledled Cymru.**

**30,000**
**O Fudiadau Gwirfoddol**

**£3.8b**
**Amcangyfrif o werth y Sector**

**938,000**
**O Wirfoddolwyr**

**Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu bron pob agwedd ar fywyd. Mae rhai nodweddion pwysig yn gyffredin rhyngddynt sef:**

Cyrff annibynnol ydyn nhw nad ydyn nhw'n perthyn i lywodraeth ac a sefydlwyd yn wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis eu trefnu.



Mae gwerthoedd yn bwysig iddyn nhw a chânt eu harwain gan awydd i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn hytrach na'r awydd i wneud elw.



Ymrwymiad i ail-fuddsoddi'r hyn sydd dros ben i hyrwyddo eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.



## Cynllun y Trydydd Sector

**Rhannu syniadau a gwybodaeth**



**Cynllunio ar y cyd**



**Monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau**



**Sicrhau arian ar gyfer pob maes polisi**



**Diddordeb cytûn yn y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn cydweithio â'r Trydydd Sector**



**Themâu trawsbynciol y cynllun:**

- Mynd i'r afael â thlodi
- Datblygiad Cynaliadwy
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg.

## Ein ffocws ar gyfer 2016/17:

**Cynnal ein hymrwymiad i ymgysylltu a chefnogi'r Trydydd Sector i lunio polisïau a chyflawni dros Gymru**



**Datblygu mecanweithiau ymgysylltu ar gyfer y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru**



**Cefnogi'r Trydydd Sector i rannu adnoddau ac i gydweithio.**



**Creu gwaddol i wirfoddoli ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd gwirfoddolwyr i fywyd yng Nghymru.**



# Y Trydydd Sector a Chynllun y Trydydd Sector

## Sut rydym yn siarad â'n gilydd?

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddorion hyn:**

- Trydydd Sector annibynnol.
- Llais y Sector wrth gyfrannu at bolisïau da.
- Cydnabod a hyrwyddo'r Trydydd Sector.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cynnal amryw o sianelau er mwyn cyfathrebu ac ymgysylltu â'i gilydd: Mae'r rhain yn cynnwys:

### Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cynnwys cynrychiolwyr o 25 o gategorïau a nodir yn y Trydydd Sector a thri chynrychiolydd o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'n darparu fforwm gwerthfawr i drafod materion strategol a thrawsbynciol.

### Cyfarfodydd Gweinidogol gyda'r Trydydd Sector

Mae'r cylch o gyfarfodydd rhwng pob un o Weinidogion Cymru a chynrychiolwyr rhwydweithiau Trydydd Sector sy'n berthnasol i'w portffolios wedi parhau i fod yn sail i ddeialog ar faterion sy'n ymwneud â phortffolios unigol, yn hytrach na materion sy'n pontio dros fwy nag un maes.

Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/ministers/?skip=1&lang=cy

# Cefnogi'r Trydydd Sector – Rôl Sefydliadau Seilwaith sy'n Galluogi'r Trydydd Sector i Ffynnu a Chyflawni

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun y Trydydd Sector, a'r Cytundeb Partneriaeth Seilwaith, drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yn cefnogi Seilwaith y Trydydd Sector sy'n cynrychioli, yn hyrwyddo, yn hybu ac yn atebol i'r Trydydd Sector ar bob lefel.

Mae'r Seilwaith, sy'n cynnwys yn bennaf Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol, yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hefyd yn helpu mudiadau'r sector a gwirfoddolwyr i greu newid cadarnhaol yn eu cymunedau.

**Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn cefnogi mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

**8,164 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi'u postio ar borth a noddir gan Lywodraeth Cymru: www.volunteering-wales.net**

**Dros 500,000 o daflenni ar redeg a rheoli mudiadau wedi'u llwytho i lawr o wefan Cefnogi Trydydd Sector Cymru**

**150,000 o ymholiadau wedi'u hateb gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar arferion da wrth reoli gwirfoddolwyr**

**£11.5M o grantiau wedi'u dosbarthu i'r Trydydd Sector gan Lywodraeth Cymru ac eraill**

**800 o gyrsiau hyfforddi wedi'u trefnu gyda 8,100 wedi cymryd rhan**

**Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi helpu mudiadau lleol a chenedlaethol i ganfod dros £36.8m drwy amrywiol gynlluniau grant/benthyg**

**5,500 o wirfoddolwyr wedi cael lleoliadau, gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2016/17**

# Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwirfoddoli?



Llyfrgell Abertyleri, Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid "craidd" i leihau unrhyw gostau gweinyddol er mwyn helpu i wneud Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn fwy effeithlon.

Rydym wedi datblygu cytundeb sy'n nodi beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'w phartneriaid yn y Trydydd Sector ei wneud am y cyllid "craidd" sy'n cael ei ddarparu. Mae'n cynnwys amcanion amrywiol a luniwyd er mwyn sicrhau bod pobl neu sefydliadau sy'n dymuno manteisio ar gyngor, cefnogaeth ac arweiniad ledled Cymru yn cael gwasanaeth unffurf o safon uchel.

Mae Canolfan Wirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn sefydliad Trydydd Sector ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn rhan o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol perthynol.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ddiweddaru ein Rhaglen Cefnogi Pobl i Wirfoddoli.

Nod Gwirfoddoli Cymru yw:

- Cefnogi prosiectau gwirfoddoli ffurfiol sy'n ceisio recriwtio, cefnogi, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr newydd;
- Annog ymarfer da wrth wirfoddoli;
- Helpu i ddatblygu gwirfoddoli mewn meysydd llai datblygedig, er enghraifft grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, meysydd sydd â llai o gyfleoedd neu fathau o gyfleoedd gwirfoddoli.

Roedd grantiau ar gael drwy'r gronfa hon i'w defnyddio tuag at gostau cydgysylltydd gwirfoddolwyr, hyfforddiant a chostau teithio gwirfoddolwyr, a rhai eitemau cyfalaf.

Roedd Gwirfoddoli Cymru wedi parhau i gynorthwyo pobl ifanc i ymwneud â gwirfoddoli mewn sawl ffordd, gan gynnwys y Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid sydd wedi'u lleoli yn y Canolfannau Gwirfoddol ledled Cymru. Roedd y Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid yn cynnig cyngor a gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod yn wirfoddolwr. Roeddent yn rhoi cyfle i bobl ifanc siarad am yr hyn roedden nhw eisiau ei wneud a beth roedden nhw eisiau ei gael o'r profiad.

Roedd y cynghorwyr gwirfoddoli ieuenctid hefyd yn bartneriaid cyflawni lleol ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm Llywodraeth Cymru, sy'n dathlu 50, 100 a 200 awr o wasanaeth gwirfoddol.

Hefyd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid er mwyn cynorthwyo ein partneriaid allweddol yn y Trydydd Sector i ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy Gyllideb Seilwaith y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

Mae http://www.gwirfoddolicymru.net/landing/ yn wefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli ledled Cymru. Mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rheoli gan WCVA, sy'n gweithio gyda Chanolfannau Gwirfoddol a mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.

Mae Canolfannau Gwirfoddol yn cynnig cyngor ac arweiniad i wirfoddolwyr drwy'r wefan, wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, dros e-bost a drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r canolfannau, ynghyd â mudiadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr, yn cynnig hyfforddiant ar ddatblygiad proffesiynol a phersonol, a bydd gwirfoddolwyr yn cael tystysgrifau a chymwysterau.

## Darparu gwybodaeth ac arwain y sector

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i wirfoddolwyr a mudiadau am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cyllid, llywodraethu, rheoli gwirfoddolwyr, recriwtio, sefydlu mudiad a mwy. http://thirdsectorsupport.wales/cy/

Mae WCVA yn darparu gwasanaeth Desg Gymorth hefyd, sy'n cynnig cymorth i'r ymholydd, neu'n ei gyfeirio at rywun arall all roi rhagor o gymorth iddo: (0800) 2888329.

## Hyfforddiant a chyflogaeth

Mae'r Trydydd Sector yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni mentora a hyfforddiant sy'n rhoi cyfle i gyfranogwyr ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio gyda mudiadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill er mwyn cynnig amrywiaeth o gyrsiau arbenigol sy'n edrych, er enghraifft, ar reoli prosiectau, ymwybyddiaeth o wahaniaethu, cymorth cyntaf ac ysgrifennu cofnodion. Maent yn cynnal sesiynau mewn canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd hefyd, er enghraifft sesiynau i helpu pobl i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu'r rhyngrwyd.

Mae WCVA yn cynnig sgiliau gweithio ymarferol i'r rheini sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda mudiadau'r Trydydd Sector. Gall hyn ddigwydd drwy gyrsiau traddodiadol, neu seminarau, "gweminarau" a dysgu ar-lein yn ei Hafan Dysgu, gan edrych ar bynciau fel rhoi cyflwyniadau, mesur effaith a diogelu.

https://www.learningzone.wales/?lang=cy

## Ymddiriedolwyr effeithiol a llywodraethu da



Prosiect Amber: Byddin yr Eglwys

Mae ymddiriedolwyr yn cynnig arweiniad, eglurder ac atebolrwydd ar draws y Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru a Cefnogi Trydydd Sector Cymru, wedi ymrwymo i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cael yr holl gefnogaeth sy'n angenrheidiol iddynt allu bod yn effeithiol yn eu rôl.

Gallant gael gafael ar y gefnogaeth hon mewn sawl ffordd, o hyfforddiant i seminarau a gweithdai, yn ogystal â'r diweddaraf o wefannau, e-fwletinau, cylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol.

## Cael arian a chyngor

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn helpu mudiadau i sicrhau cyllid er mwyn iddynt allu cyflawni eu nod, boed hynny'n sicrhau grantiau, contractau caffael, neu gyllid ar ffurf benthyciad.

Mae cefnogaeth ac arweiniad i'r sector yn cynnwys chwilio am gyllid; cymorth ymarferol gyda cheisiadau am gyllid; arallgyfeirio incwm; codi arian; cynllunio busnes; rheolaeth ariannol; tendro; masnachu; a chydweithio.

## Polisi: rhoi llais i'r sector

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn gweithio i sicrhau bod y Trydydd Sector yn gallu cyfrannu at bolisi ar bob lefel o wneud penderfyniadau.

Ar lefel genedlaethol, rhoddir cyfleoedd i leisiau gael eu clywed drwy grwpiau cynllunio strategol a fforymau a rhwydweithiau cefnogi, ac mae gwybodaeth am ymgynghoriadau perthnasol yn cael eu hyrwyddo drwy amrediad o sianeli cyfathrebu'r seilwaith.

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn chwarae rhan mewn partneriaethau allweddol gyda'r sector cyhoeddus yn eu hardaloedd, ac yn gweithio i sicrhau mewnbwn y sector i bartneriaethau rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu.

### Cyllid a neilltuwyd i Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2016-17

| Dyraniadau | |
|---|---|
| Cyllid Craidd Canolfannau Gwirfoddol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol – Gweler y tabl isod ar gyfer yr hyn a neilltuwyd fesul Siroedd unigol | £3,678,582 |
| Cyllid Craidd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | £786,113 |
| Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru | £1,331,112 |
| Cronfa Cefnogi Trydydd Sector Cymru | £50,000 |
| Cronfa Datblygu Potensial Partneriaethau – grantiau i rwydweithiau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | £87,545 |
| **CYFANSWM** | **£5,933,352** |

### Grantiau ar gyfer Dyraniadau i Gynghorau Gwirfoddol Sirol

| Ardal | |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | £152,126 |
| Caerdydd | £190,612 |
| Sir Gaerfyrddin | £172,217 |
| Ceredigion | £154,316 |
| Conwy | £155,089 |
| Sir Ddinbych | £154,367 |
| Sir y Fflint | £159,207 |
| Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd) | £546,276 |
| Gwynedd | £202,494 |
| Ynys Môn | £151,114 |
| Merthyr Tudful | £150,283 |
| Castell-nedd Port Talbot | £154,274 |
| Sir Benfro | £154,134 |
| Powys | £318,883 |
| Rhondda Cynon Taf | £188,092 |
| Abertawe | £197,829 |
| Torfaen | £152,991 |
| Bro Morgannwg | £169,236 |
| Wrecsam | £155,042 |
| **CYFANSWM** | **£3,678,582** |

Nid dyma’r unig gyllid a ddarperir i fudiadau’r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru’n darparu cefnogaeth, cyllid craidd a chyllid prosiect i lawer o fudiadau Trydydd Sector eraill.

Mewn llawer o achosion mae’r cronfeydd hyn yn ymwneud â meysydd gwaith arbenigol a chytunir ar y cyllid gan yr Ysgrifennydd Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Ceir ychydig mwy o wybodaeth gryno am y cyllid ehangach hwn ym Mhennod 6.

# Astudiaeth Achos

## Galluogi Byw'n Annibynnol – Gofal a Thrwsio Cymru – Cefnogi Pobl i fyw yn eu cartref



Prosiect Tyfu'n Wyllt Treganna a Glan yr Afon

**Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Yn 2016/17 derbyniodd Gofal a Thrwsio £4.3 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo dros 27,000 o bobl hŷn yng Nghymru.**

Mae 13 asiantaeth Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaeth dros Gymru gyfan, a Gofal a Thrwsio Cymru yw'r corff cyfryngol cenedlaethol.

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu cymorth i bobl mewn tai sector preifat i'w helpu i wneud gwelliannau i'w cartref. Yn aml mae hyn yn golygu nad oes angen help ychwanegol ar eu cleientiaid gan y gwasanaethau cymdeithasol, mae'r gwelliannau yn helpu i osgoi damweiniau sy'n gallu arwain at ymweliadau ag ysbyty, ac yn galluogi eu cleientiaid i aros gartref ac allan o ofal hirdymor. Mae'r gwaith yn pontio meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal â gosod cymhorthion a gwneud addasiadau, mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu ystod eang o wasanaethau yn cynnwys cymorth ymarferol gyda grantiau adnewyddu cartrefi, rheoli gwaith adeiladu, cynnal gwiriadau diogelwch yn y cartref, gwneud asesiadau risg o gwympo, ac ymholiadau am fudd-daliadau lles. Mae gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau gynlluniau 'Diogelwch yn y Cartref' a chynlluniau gyda chrefftwyr sy'n gallu gwneud gwaith atgyweirio bach ond hollbwysig.

https://www.youtube.com/watch?v=lbqAdljbh_A

## Enghraifft o Elusen Gofal a Thrwsio yn cefnogi, helpu a galluogi person anabl i aros yn ei gartref.

Cyfeiriwyd Mr Jones at Gofal a Thrwsio gan Gymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA) (elusen y lluoedd arfog). Mae wedi colli ei ddwy goes ac yn gorfod defnyddio cadair olwyn.

Yn ddiweddar, cafodd lawdriniaeth ddargyfeiriol driphlyg ar ei galon ac roedd ei wraig yn gorfod gofalu amdano 24 awr y dydd. Ac yntau'n arddwr rhandir brwd, roedd Mr Jones yn mynd yn fwy ac yn fwy rhwystredig gyda'i sefyllfa ac roedd yn teimlo'n gaeth i'w ystafell gan achosi iselder a rhwystredigaeth iddo fe a'i wraig. Roedd yn dyheu am gael mynd allan i'w ardd yn ddiogel a gwireddu ei freuddwyd o allu parhau i arddio a thyfu llysiau.

Cafodd amcanbrisiau i lefelu'r ardd a gosod 2 wely blodau ar lefel uwch. Cyfanswm y gost oedd £3,880 a llwyddodd Gofal a Thrwsio i sicrhau cyllid gan y sefydliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Y Lleng Brydeinig Frenhinol | £1,480 |
| Ymddiriedolaeth Garddio i Bobl Anabl | £1,000 |
| Ymddiriedolaeth Bruce Wake | £750 |
| Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo (CISWO) | £500 |

Yn ogystal â sicrhau bod Mr Jones yn gallu mynd i'w ardd yn hwylus, trefnodd Gofal a Thrwsio i osod canllaw yn ei ystafell ymolchi fel ei fod yn gallu ymolchi ei hun.

Mae gallu mynd i'w ardd i ofalu am ei lysiau wedi rhoi hwb sylweddol i iechyd a lles Mr Jones a'i wraig. Bellach mae Mr Jones yn gallu mwynhau a difyrru ei hun yn yr ardd unwaith eto ac mae ganddo fwy o annibyniaeth yn ei gartref.

# Sut a Pham mae Llywodraeth Cymru yn Cefnogi Gwirfoddolwyr

## Gwirfoddoli

**Gall gwirfoddoli roi ymdeimlad o bwrpas yn yr hyn rydych yn ei wneud**

**Gall gwirfoddoli roi profiad i chi ar gyfer eich gyrfa**

**Gall gwirfoddoli roi hwb i'ch gyrfa**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyfrannu arbenigedd neu amser gwirfoddol er mwyn cefnogi eraill (yn rhad ac am ddim i'r unigolyn, y gymuned neu'r grŵp, a heb elw ariannol i'r gwirfoddolwr) yn nodwedd hanfodol o ddinasyddiaeth dda.

Yn y pen draw, mae gwirfoddoli yn ymwneud â helpu eraill a chael effaith ar les pobl. Mae gwirfoddolwyr yn cael cymaint o fudd â'r unigolion a'r cymunedau maent yn eu helpu.



Volunteering Matters

Mae tua 938,000 o bobl yn gwneud gweithgareddau gwirfoddol ledled Cymru sy'n atgyfnerthu ein traddodiad o gefnogi eraill yn ein cymunedau (Gweler y troednodyn).

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwerth a'r effaith a gaiff gwirfoddoli ar fywydau pobl mewn cymunedau ac mae wedi darparu cyllid sylweddol i sicrhau bod llwybrau cefnogaeth ar gael i'r rheini sydd am wneud yr hyn a allant i helpu eraill.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r manteision gwirioneddol i unigolion sy'n gwirfoddoli:

- **Gall gwirfoddoli roi ymdeimlad o bwrpas – rhywbeth i'w wneud, sydd o fudd i'r sawl sy'n gwirfoddoli ac i'r unigolyn/achos y mae'n ei helpu.**

  Gall bod â "dim byd i'w wneud" gael effaith negyddol iawn ar hunan-barch a hunan-gred rhywun. Mae'n siwrnai anodd, â llawer o rwystrau i'w goresgyn, ond gall cyrraedd pen y daith a chael canlyniadau cadarnhaol fod yn fuddiol ynddo'i hun. Yr ochr arall i'r geiniog wrth gwrs yw does dim byd gwell na chael help llaw gan rywun.

  Gall gwirfoddolwyr wneud bywyd yn well i bob un ohonom.

- **Gall gwirfoddoli roi profiad i chi ar gyfer eich gyrfa**

  Cael swydd a'i chadw yw'r ffordd orau un o wella ansawdd bywyd unigolion. I'r rheini sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith, mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i roi cynnig ar yrfa newydd heb wneud ymrwymiad hirdymor. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ennill profiad mewn maes newydd, ac i ddysgu sgiliau newydd. Mae llawer o gyfleoedd gwirfoddoli yn rhoi hyfforddiant helaeth. Mae meddu ar fwy o brofiad a sgiliau dymunol yn gwella siawns ymgeiswyr mewn marchnad swyddi gystadleuol.

- **Gall gwirfoddoli roi hwb i'ch gyrfa**

  I rai sydd eisoes mewn gwaith, gall gwirfoddoli helpu i fagu profiad mewn maes diddordeb a chwrdd â phobl yn yr un maes. Mae gwirfoddoli'n rhoi cyfle i ymarfer sgiliau pwysig a ddefnyddir yn y gweithle, megis gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau, cynllunio prosiectau, rheoli tasgau a threfnu.

## Hoffech chi wirfoddoli?

http://www.gwirfoddolicymru.net/pam-gwirfoddoli/

## Chwilio am wirfoddolwyr?

http://www.gwirfoddolicymru.net/organisations/

Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector ar gyfer 2016 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016
http://www.wcva.org.uk/about-us/news/2016/08/third-sector-statistical-resource-2016

# Astudiaeth Achos

## Hawl i Fudd-daliadau: Manteision Gwirfoddoli ar y daith tuag at gyflogaeth


Gwirfoddolwyr yn dysgu sgiliau meithrin tîm

**Mae Tîm Diwygio Lles Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gael eglurder ynghylch y rheolau sy'n ymwneud ag annog pobl sy'n hawlio budd-daliadau lles i ymgymryd â gweithgareddau gwirfoddol fel un ffordd o'u helpu yn ôl i gyflogaeth neu i waith.**

Gall gwirfoddoli fod yn gam defnyddiol i helpu person yn ôl i gyflogaeth a gall ddatblygu i fod yn rôl am weddill eu hoes. Gall helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, i gryfhau eu CV, i fagu hyder, ac i wneud ffrindiau newydd. Gall hefyd ddangos i gyflogwyr fod unigolyn yn ymroddedig ac yn ddibynadwy a gall hyn wedyn roi gwell siawns i'r person ganfod gwaith cyflogedig.

Gall pobl hawlio budd-daliadau diweithdra yn ogystal â gwirfoddoli am faint bynnag o oriau ag y dymunant, ar yr amod eu bod yn glynu wrth eu hamodau fel hawlydd budd-dal, sef eu bod yn dal i chwilio am waith cyflogedig a'u bod ar gael i fynd i gyfweliadau swydd a chyfleoedd hyfforddi.

Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau swyddogion dynodedig sy'n gweithio gyda mudiadau yn y trydydd sector, fel Sefydliad Prydeinig y Galon, i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a manteision gwirfoddoli wrth gefnogi pobl yn ôl i gyflogaeth.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a Gwirfoddoli Cymru wedi llunio canllawiau manwl ar hyn dan y teitl *'Canllaw i Wirfoddoli'* https://www.wcva.org.uk/media/2463262/a_guide_to_volunteering_-_nov_16_final_cym.pdf

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda'u cydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a WCVA i annog Cynghorau Gwirfoddol Sirol i greu cysylltiadau cryfach â Hyfforddwyr Gwaith y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn rhannu eu gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i bobl sydd ar hyn o bryd yn cael budd-daliadau lles.

# Cyllid a Chefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fudiadau'r Trydydd Sector – 2016-17

Mae **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru** a'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** yn darparu nodiadau esboniadol ar y mathau o gyllid a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mudiadau yn y trydydd sector.

- **Cymorth Grant neu "Grant"**
- **Caffael**

Rhaid i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r angen i reoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol ac er budd y cyhoedd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru, ei chomisiynwyr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Estyn, ac is-gyrff Llywodraeth Cymru lynu wrth y fframwaith a'r egwyddorion a amlinellir yn **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.** Ceir rhagor o fanylion yma: http://gov.wales/docs/caecd/publications/160201-managing-money-cy.pdf

## Beth sydd yn y Cod?

Mae'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** (y Cod) yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau ariannu'r Sector.

Mae'r Cod yn nodi'r mathau o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau ariannu arnynt, a'r telerau a'r trefniadau ar gyfer cynnig cyllid.

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/140130-third-sector-scheme-cy.pdf

Anogir Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu codau ymarfer eu hunain ar ariannu'r Sector.

## Faint Wnaeth Llywodraeth Cymru ei Wario ar y Trydydd Sector yn 2016-17

Yn 2016-17 gwariodd Llywodraeth Cymru £285.7 miliwn ar ariannu'r Trydydd Sector yn uniongyrchol (gwariant Grant a Chaffael).

Nid yw hyn yn cynnwys taliadau anuniongyrchol a wnaed i fudiadau Trydydd Sector os yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydliad arall, er enghraifft, Awdurdod Lleol, a allai fod wedi ariannu mudiadau Trydydd Sector yn ddiweddarach.

Yn 2016-17, llwyddodd y Trydydd Sector i ddenu £29.1 miliwn mewn gwariant caffael. Mae hyn yn ychwanegol at y £265 miliwn a sicrhawyd gan y Trydydd Sector mewn gwariant caffael uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ers 2012-13.

# Astudiaeth Achos

## Y Trydydd Sector yn cefnogi personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yng Nghymru



Aelod o'r Lluoedd Arfog yn dychwelyd at ei deulu



Cymorth i'r Lluoedd Arfog

**Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Grŵp Arbenigol ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ddwywaith y flwyddyn. Mae sawl asiantaeth wahanol yn aelodau o'r Grŵp Arbenigol ac mae'n gyfle heb ei ail i gydweithio â phartneriaid megis y Lleng Frenhinol Brydeinig, y tri gwasanaeth milwrol, a sefydliadau eraill sy'n cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r grŵp yn rhoi sylw i flaenoriaethau ar y cyd i'r dyfodol a sut y gellir cyflawni'r blaenoriaethau hynny.**

Roedd lansio maniffesto'r Lleng Frenhinol Brydeinig ym mis Ionawr 2016 yn gyfle i gael mwy o gydweithredu wrth gyflenwi gwasanaethau sy'n cefnogi cymuned y lluoedd arfog. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yn y maniffesto. Drwy gydweithio'n agos â'r Lleng Frenhinol Brydeinig, cyflawnwyd y canlynol:

- O fis Ebrill 2017, ni ystyrir Pensiwn Anabledd Rhyfel cyn-filwyr wrth geisio hawlio pob math o ofal cymdeithasol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gefnogi gwella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr yng Nghymru. Yn 2016-17, darparwyd £100,000 y flwyddyn yn ychwanegol i GIG Cymru i Gyn-filwyr er mwyn lleddfu'r pwysau a'r rhestrau aros ledled Cymru. Bellach, darperir £685,000 y flwyddyn o gyllid.
- Datblygu Llwybr Tai Cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth ac yn cyfeirio cyn-filwyr a'u teuluoedd at wasanaethau ac opsiynau fel y gallant wneud dewis doeth o ran eu hanghenion llety ar ôl gadael y Lluoedd.
- Cyhoeddi dogfen Croeso i Gymru er mwyn helpu personél y Lluoedd a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth os ydyn nhw'n cael eu danfon i Gymru.

https://www.youtube.com/watch?v=vEkNyFuUV7k

# Rhagor o Wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector, ewch i:
http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/?skip=1&lang=cy

I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli, ewch i
www.volunteering-wales.net

neu ewch i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol neu'ch Canolfan Wirfoddol leol.
http://www.wcva-ids.org.uk/?diablo.lang=cym

Fel arall, cysylltwch ag Uned y Trydydd Sector yn
thirdsectorqueries@gov.wales neu ffoniwch (0300) 062 8274.

I gael rhagor o wybodaeth am raglenni grant eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar (0800) 2888329 neu ewch i'w gwefan www.wcva.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ewch i'w gwefan
http://thirdsectorsupport.wales/cy/

Cydnabyddiaeth am y Lluniau:

| | |
|---|---|
| Clawr 1 | Headway Caerdydd |
| Clawr 2 | Soroptimists Cymru |
| Clawr 3 | Age Cymru |
| Tudalen 9 | Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure |
| Tudalen 10 | Byddin yr Eglwys |
| Tudalen 12 | Tyfu'n Wyllt yn Nhreganna a Glan yr Afon |
| Tudalen 14 | Volunteering Matters |
| Tudalen 16 | Communities4Work |
| Tudalen 19 | MOD Hawlfraint y Goron |
| Tudalen 19 | MOD Hawlfraint y Goron |


OGL © Hawlfraint y Goron 2018
WG34112 ISBN digidol 978-1-78903-778-4 ISBN argraffu 978-1-78903-781-4